**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyllideb Comisiwn y Cynulliad
2013–14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Etholwyd Comisiynwyr y Cynulliad gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Mai 2011. Ynghyd â'r Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, y Comisiynwyr yw Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC.

| Y Comisiynwyr a'u rôl \| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
|---|---|
| **Portffolio** | **Comisiynydd** |
| Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, gan gymryd y prif gyfrifoldeb am gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff. | Rosemary Butler AC |
| Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio. Cysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i'r Aelodau. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad. | Angela Burns AC |
| TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth. Ystâd y Cynulliad a Chynaliadwyedd. | Peter Black AC |
| Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, siop y Cynulliad, arlwyo a diogelwch. Cyfleusterau'r Cynulliad. Swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. | Sandy Mewies AC |
| Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth. | Rhodri Glyn Thomas AC |

## Y Pedwerydd Cynulliad - dogfennau perthnasol ar ein gwefan

**Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad**
www.assemblywales.org/cy/fourth_commission_strategy.pdf

**Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad**
www.assemblywales.org/cy/bus-assembly-publications-key-issues.htm

**Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2012-13**
www.assemblywales.org/cy/about_us-commission_budgets.htm

**Penderfyniad y Bwrdd Taliadau i Aelodau'r Cynulliad**
www.assemblywales.org/cy/remuneration_board.htm

**Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2011-2012**
www.assemblywales.org/cy/about_us-annual-reports.htm

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyllideb Comisiwn y Cynulliad
2013–14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

# Cynnwys


Rhagair ..... 1

01. Comisiwn y Cynulliad ..... 3

02. Cost y Cynulliad Cenedlaethol ..... 4

03. Y Pedwerydd Cynulliad - ar waith ..... 5

04. Gwasanaethau Seneddol o'r Radd Flaenaf ..... 8

05. Buddsoddiadau Strategol mewn TGCh ..... 12

06. Man Cyfarfod i Gymru ..... 14

07. Y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ..... 16

08. Cwmpas y Gyllideb ..... 18

Atodiad 1 Gwybodaeth Ariannol ..... 20

Atodiad 2 Rhestr termau ..... 22

# Rhagair

Wrth baratoi ein cyllideb ar gyfer 2013-14, nod y Comisiwn yw sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth cymorth a gaiff y Cynulliad yn ei alluogi i ddefnyddio ei bwerau deddfu ehangach yn llawn, a sicrhau bod dyheadau pobl Cymru ynghylch y Cynulliad yn cael eu gwireddu. Rydym o'r farn fod y gyllideb yn bris priodol i'w dalu i ddarparu cymorth o ran deddfu, craffu ar waith y Llywodraeth, a chynrychiolaeth ddemocrataidd.

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, bu inni gyflwyno ein cynlluniau gwariant tair blynedd i gyflawni ein nodau strategol. Cefnogwyd y cynlluniau hynny gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, a'r Cynulliad cyfan.

Eleni, rydym yn cadw at y trywydd y gwnaethom ei bennu yn y cynllun tair blynedd hwnnw. Mae cyllideb 2013-14 yn cyd-fynd yn union â'r lefel a nodwyd gennym y llynedd. Drwy arwain, a thrwy reoli ein hadnoddau yn ofalus, byddwn yn darparu cymorth seneddol o'r ansawdd ofynnol i'r Cynulliad gan ddefnyddio'r un cyfanswm o arian, mewn termau real, ag a ddyrannwyd i'r Comisiwn dair blynedd yn ôl. (Gweler Atodiad 1.)

Mae sefyllfa gyfansoddiadol newydd y Cynulliad ar ôl y refferendwm yn 2011 yn atgyfnerthu'r ffaith bod angen cymorth seneddol o'r radd flaenaf. Bydd hyn yn cael ei danseilio oni fydd y Comisiwn yn sicrhau bod cyllideb addas ar gael. Fel y nodwyd gennym y llynedd, yn ystod y Pedwerydd Cynulliad bydd y dull hwn yn galluogi'r Comisiwn i:

- gryfhau'r cyngor a'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i'r Aelodau fel y bydd y gwaith o graffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn fwy treiddgar, yn fwy adeiladol ac yn fwy deallus;
- sicrhau bod gan Aelodau unigol y cymorth sydd ei angen arnynt i hyrwyddo eu cynigion eu hunain ar gyfer newid polisi a newid deddfwriaethol; a
- chreu amgylchedd a fydd yn galluogi'r cyhoedd yng Nghymru i gymryd mwy a mwy o ran yng ngwaith y Cynulliad.

**Drwy arwain, a thrwy reoli ein hadnoddau yn ofalus, byddwn yn darparu cymorth seneddol o'r ansawdd ofynnol i'r Cynulliad gan ddefnyddio'r un cyfanswm o arian, mewn termau real, ag a ddyrannwyd i'r Comisiwn dair blynedd yn ôl.**

Mae rhaglen Gwerth am Arian ar waith i sicrhau y gallwn ddangos bod yr holl gyllid cyhoeddus a gaiff ei wario i gefnogi'r Cynulliad yn cael ei wario yn y ffordd orau, drwy sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf priodol wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r Cynulliad ac i bobl Cymru.

Wrth wneud ein penderfyniadau ar strategaeth gyllidebol y Pedwerydd Cynulliad, bu'r Comisiwn yn ystyried y canlyniadau a fyddai'n deillio o wneud rhagor o doriadau. Bu inni wrthod gwneud hyn, oherwydd yr effaith niweidiol y byddai'n debygol o'i chael ar wasanaethau ac ar gontractwyr a'u staff. Tynnodd adborth gan Aelodau'r Cynulliad sylw at bryderon sylweddol am doriadau a fyddai wedi cael effaith gynyddol negyddol ar ansawdd a chwmpas y gwasanaethau a ddarperir i'r Aelodau, yn enwedig yng nghyswllt darparu cymorth seneddol.

Bydd ein cyllideb arfaethedig yn parhau â'r un berthynas â bloc Cymru (0.3%) ag a fu ers sawl blwyddyn. Ym mhob blwyddyn o'r Pedwerydd Cynulliad, byddwn yn gwario llai, mewn termau real, na lefel ein cyllid yn 2010-11.

Credwn fod hwn yn ddull pwyllog, cytbwys o weithredu yng nghyswllt cyllideb y Comisiwn, a'i fod yn peri'r budd gorau i'r Cynulliad ac i Gymru.

**Rosemary Butler,**
**Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Angela Burns, Comisiynydd** | **Peter Black, Comisiynydd** | **Sandy Mewies, Comisiynydd** | **Rhodri Glyn Thomas, Comisiynydd** |

# 01. Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**Nodau strategol y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yw:**

– **Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**
Mae'r Cynulliad mewn sefyllfa gyfansoddiadol newydd, a byddwn yn cynnig cefnogaeth briodol i alluogi Aelodau'r Cynulliad i ymdopi â'r heriau newydd y maent yn eu hwynebu.

– **Ymgysylltu â phobl Cymru**
Byddwn yn creu amgylchedd sy'n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n hwyluso pobl i ymgysylltu â swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli'r Cynulliad. Byddwn yn ymgysylltu'n frwd ac eang, ac yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r ymgysylltiad hwnnw.

– **Hyrwyddo Cymru**
Drwy weithio fel llysgennad i Gymru dros y byd, byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, a chwarae ein rhan yn natblygiad democratiaeth seneddol mewn gwledydd eraill dros y byd.

– **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**
Byddwn yn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau llawn i weithredu'n effeithiol fel senedd sydd â phwerau deddfu newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn atgyfnerthu hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau drwy wneud defnydd da o arian y trethdalwr. Byddwn yn rheoli ein hadnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd fwy effeithlon a chan gynnig gwell gwerth am arian.

Bydd y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau yn unol ag egwyddorion statudol: gydag ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb; ystyriaeth briodol i'r egwyddor o hybu datblygu cynliadwy; a, chyn belled â'i bod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol resymol, bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

**375**
**Aelodau staff Comisiwn y Cynulliad**

**5,000**
**Teithiau a drefnwyd i ymwelwyr i'r Senedd yn 2011-12.**

**9,000**
**Taliadau a wnaed yn 2011-12.**

**107,225**
**Cwestiynau'r Cynulliad**

## 02. Cost y Cynulliad Cenedlaethol

**Cost y Cynulliad Cenedlaethol yn 2013-14**

**£49.5 miliwn**

**0.3%**


**o'r £15 biliwn sydd ym mloc Cymru**

I roi cyllideb y Comisiwn yn ei chyd-destun, 0.3% o'r holl gyllid a ddaw i Gymru o dan 'floc Cymru' ydyw, sef tua £15 biliwn y flwyddyn. Mae bron yr holl arian hwnnw yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn sgîl penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Rôl y Cynulliad yw craffu ar waith a gwariant Llywodraeth Cymru, a'u herio; deddfu i Gymru; a chynrychioli buddiannau pobl Cymru. Caiff y gost o wneud hyn ei ariannu gan gyllideb y Comisiwn, sef £49.5 miliwn (2013-14), sy'n cynnwys:

– £13.7 miliwn i ddarparu'r gyllideb yng nghyswllt Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Penderfyniad yn nodi'r manylion ynghylch cyflogau Aelodau'r Cynulliad, cyflogau eu staff cymorth, a'r costau sy'n ymwneud â rhedeg eu swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol ledled Cymru. Mae cyflogau'r Aelodau wedi cael eu rhewi ar y lefel yr oeddent yn 2011 tan o leiaf 2015;
– £16.3 miliwn i dalu costau cyflogi staff y Comisiwn;
– £19.5 miliwn i dalu am fuddsoddiadau a chostau cynnal y Senedd ac ystâd y Cynulliad, costau TGCh a chyflenwadau a gwasanaethau eraill.

Caiff y costau eu cymharu â chostau'r gyllideb flaenorol yn Atodiad 1.

**Cost y Cynulliad Cenedlaethol yn 2013-14: £49.5 miliwn**



## 03. Y Pedwerydd Cynulliad - ar waith

Roedd y cynlluniau cyllidebol tair blynedd a nododd y Comisiwn y llynedd yn pennu'r ymrwymiad a ganlyn inni:

– cryfhau'r cyngor a'r gwasanaethau arbenigol fel y bydd y gwaith o graffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn fwy treiddgar, yn fwy adeiladol ac yn fwy deallus;
– sicrhau bod gan Aelodau unigol y cymorth sydd ei angen arnynt i hyrwyddo eu cynigion eu hunain ar gyfer newid polisi a newid deddfwriaethol; a
– chreu amgylchedd a fydd yn galluogi'r cyhoedd yng Nghymru i gymryd mwy a mwy o ran yng ngwaith y Cynulliad.

Mae strategaeth y Comisiwn ynghylch buddsoddi yn y dyfodol, er gwaethaf y cefndir ariannol ac economaidd anodd, wedi ein galluogi i gyflawni i'r Cynulliad heb danseilio'r gwerthoedd a'r ansawdd sy'n bwysig i'r Aelodau. Mae sicrhau gwerth am arian drwy ein holl wasanaethau yn sail i'n strategaeth, ynghyd â chadw at ein cyfrifoldebau cyfansoddiadol a chorfforaethol o ran sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad bopeth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu gwaith o ddeddfu, craffu a chynrychioli ar ran pobl Cymru.

**Ers Mis Mai 2011:**

**255**
**Oriau yn y Cyfarfod Llawn**

**209**
**Cyfarfodydd pwyllgor**

**18**
**Ymchwiliadau a gwblhawyd eisoes gan bwyllgorau**

**22**
**Ymchwiliadau y mae pwyllgorau yn eu cynnal ar hyn o bryd**

Ym mlwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliwyd 59 Cyfarfod Llawn a 209 o gyfarfodydd pwyllgor. Mae pedwar Bil wedi'u cyflwyno yn y Cynulliad hwn hyd yma; roedd 18 o ymchwiliadau pwyllgor eisoes wedi'u cwblhau, ac mae 22 arall yn mynd rhagddynt. Wedi blwyddyn o Gynulliad pum mlynedd, mae'r rhain eisoes yn cwmpasu trawstoriad eang o bynciau.

Rydym wedi cefnogi newid sylweddol i strwythur pwyllgorau'r Cynulliad sy'n golygu bod dwy agwedd ar waith y pwyllgorau, sef cynnal ymgynghoriadau a dwyn y Llywodraeth i gyfrif drwy graffu ar bolisi a deddfwriaeth. Mae hyn yn galluogi'r Aelodau i ddatblygu arbenigedd dros amser ynglŷn â phwnc penodol, ac mae'n gwneud y gorau o'r amser a nifer yr Aelodau sydd ar gael mewn deddfwrfa gymharol fach. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws i randdeiliaid ymgysylltu â phwyllgorau ynghylch deddfwriaeth a pholisi sy'n ymwneud â phynciau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Mae pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad yn hynod weithgar, a gaiff ei brofi gan y patrwm sy'n dod i'r amlwg yng nghyfarfodydd y pwyllgorau. Yn ychwanegol at eu cyfarfodydd ffurfiol, mae pwyllgorau'n defnyddio cyfarfodydd anffurfiol ac ymweliadau i lywio'u gwaith. Mae hyn wedi eu galluogi i glywed barn a phrofiadau ystod ehangach o randdeiliaid, y tu hwnt i Gaerdydd.

Mae'r pwyllgorau wedi gweithio mewn ffyrdd newydd ac arloesol, gan gynnwys sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen, naill ai i ystyried pwnc yn fanwl dros gyfnod hir, neu i alluogi nifer fach o aelodau'r pwyllgor i gynnal ymchwiliadau byr, manwl i bynciau penodol. Mae'r defnydd a wneir o is-bwyllgorau ffurfiol wedi cynyddu o'i gymharu â'r Trydydd Cynulliad, a bu grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynnal ymchwiliadau penodol sy'n amrywio o asesu dyfodol y cyfryngau yng Nghymru i gynnig gwelliannau i gynigion yr UE i newid y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Rydym wedi cryfhau'r cymorth a roddir i fusnes ffurfiol y Cynulliad, a hynny drwy sicrhau bod gallu ychwanegol gennym yng nghyswllt gwaith ymchwil a chlercio pwyllgorau, ac rydym wedi gwella trefniadau o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym wedi sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar gyngor arbenigol, ac rydym mewn gwell sefyllfa i ddarparu cymorth o ansawdd uchel i Aelodau sy'n bwriadau bwrw ymlaen â'u cynigion deddfwriaethol eu hunain. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u neilltuo i gryfhau gwasanaethau a gynigir yng nghyswllt dadansoddi ariannol a gwaith craffu, i alluogi'r Cynulliad i graffu'n fwy effeithiol ar gynigion Llywodraeth Cymru o ran gwariant, a'r costau y mae wedi'u cyfrifo.

Mae'r cymorth a roddir i waith craffu yn y pwyllgorau wedi'i wella hefyd oherwydd iddynt fanteisio mwy ar wybodaeth arbenigol allanol; penodwyd mwy o arbenigwyr allanol yn 2012 hyd yma nag a wnaed mewn unrhyw flwyddyn lawn arall. Daw yr arbenigwyr hyn o amryw o feysydd, gan gynnwys y byd academaidd a sefydliadau arbenigol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein rhaglen Sesiynau'r Pierhead wedi denu siaradwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ac yn uchel eu proffil, gan gynnwys Dr Rowan Williams, Archesgob Caergaint; Helen Clark, cyn-Brif Weinidog Seland Newydd; a Noam Chomsky, ieithydd ac ysgolhaig adnabyddus.

Mae ystod o weithgareddau datblygu proffesiynol wedi'u darparu i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys ystyried dulliau o graffu a holi, gwaith craffu deddfwriaethol, ysgrifennu a chyflwyno areithiau, a sgiliau ymchwilio, a chynhaliwyd sesiynau cynefino i staff cymorth newydd, gan gynnwys sesiwn ynghylch deall busnes y Cynulliad. Gall yr Aelodau a'u staff cymorth hefyd gael eu cefnogi i ennill rhagor o gymwysterau os bydd y rhain yn cyfrannu'n uniongyrchol at swydd yr unigolyn a dibenion strategol y Cynulliad. Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus wedi cael ei chydnabod gan gyrff seneddol eraill, sy'n awyddus i weithredu yn yr un modd.

Gwnaethom lansio'r Cynllun Prentisiaethau yn ddiweddar, ac rydym yn datblygu lleoliadau i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ynghyd â rhaglen secondiadau a chysgodi swyddi fwy eang. Daw hyn â chyfleoedd i fanteisio ar sgiliau arbenigol am gyfnod penodol, ac mae'n ein galluogi i ddysgu gan sefydliadau eraill.

Mae'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau wedi'i seilio ar lywodraethu da. Mae hyn yn cwmpasu'r modd y gwnawn benderfyniadau; sut yr ydym yn rheoli cyllidebau a pherfformiad; a'r modd yr ydym yn cael ein sicrhau bod ein trefniadau gweithio yn addas i'r diben:

- am y bumed flwyddyn yn olynol, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn;

- mae ein haeddfedrwydd yng nghyswllt arferion rheoli risgiau effeithiol wedi ein galluogi i symleiddio ac ad-drefnu ein fframwaith rheoli risgiau;
- o ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi cryfhau trefniadau caffael a rheoli cytundebau, rydym bellach yn cael mwy am ein cytundebau.

Yn ei adroddiad ar ein Cyllideb ddrafft, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylem gyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol. Rydym yn cytuno y byddai hyn yn ychwanegu at dryloywder ac atebolrwydd gwaith y Comisiwn. Un o themâu ein rhaglen Gwerth am Arian yw gwella gwybodaeth rheoli fel y gellir deall yn well y gweithgareddau a'r costau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau'r Cynulliad. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym felly yn bwriadu cyhoeddi, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, gyfres o ddangosyddion perfformiad blynyddol y gellir eu defnyddio i fonitro ein perfformiad drwy gydol 2013-14.

# 04. Gwasanaethau Seneddol o'r Radd Flaenaf

**Mae ein staff yn elfen allweddol o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf.**

Mae ein 60 Aelod Cynulliad yn ysgwyddo cyfrifoldeb a braint sylweddol wrth gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.  Mae gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymru ddisgwyliadau mawr - maent yn disgwyl y bydd eu Haelodau Cynulliad yn gwella bywydau pawb sy'n byw yng Nghymru.  Mae angen staff a gwasanaethau arbenigol o ansawdd uchel ar Aelodau i'w galluogi i gyflawni'r disgwyliadau hyn.

**Y rhaglen ddeddfwriaethol a mynd i'r afael â materion Ewropeaidd**

Nododd dogfen y gyllideb y llynedd ddau faes lle y byddai angen adnoddau penodol i ddiwallu anghenion a oedd yn datblygu - rhaglen ddeddfwriaethol gynhwysfawr ac uchelgeisiol yn sgîl pwerau deddfu newydd y Cynulliad; ac ymdrin i raddau mwy â materion deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd o ganlyniad i brotocol sybsidiaredd Cytuniad Lisbon.

Er bod y rhaglen ddeddfwriaethol wedi datblygu'n raddol, bellach mae nifer y Biliau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru (a chan Gomisiwn y Cynulliad ac Aelodau unigol) yn cynyddu, ac mae'n amlwg y bydd nifer y Deddfau a fydd wedi'u cymeradwyo erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad yn sylweddol uwch na nifer y Mesurau a gymeradwywyd yn y Trydydd Cynulliad, sef 22. Fodd bynnag, un rhan o'r darlun yn unig yw hyn.

Fel y rhagwelwyd, bu datblygiad amlwg yng nghymhlethdod ac uchelgeisiau deddfwriaeth y Cynulliad, sy'n adlewyrchu natur gynhwysfawr y pwerau deddfu newydd. Hefyd, fel y rhagwelodd y Comisiwn ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, mae'r gofynion ymarferol sydd ynghlwm wrth gefnogi'r Aelodau yn effeithiol i graffu ar ddeddfwriaeth yn cynyddu, a hynny o ran eu nifer a'u cymhlethdod. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Comisiwn i ddarparu'r staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen i gynorthwyo'r Cynulliad i gyflawni'r gofynion hyn.

**Byddwn yn sicrhau bod gan bwyllgorau yr adnoddau angenrheidiol i weithredu'n effeithiol ac yn greadigol.**

Cafwyd prawf hefyd o allu'r Cynulliad i ymgysylltu'n effeithiol â materion Ewropeaidd. Cafodd sylwadau'r Cynulliad am gynnig gan Gomisiwn yr UE ynghylch cyfarwyddeb ar gaffael eu mabwysiadau gan Dŷ'r Cyffredin a'u cyflwyno i Gomisiwn yr UE ddechrau 2012. Drwy hyn, parhawyd i godi proffil y Cynulliad o ran ei allu i gyfrannu'n effeithiol at y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE sy'n effeithio ar Gymru. Mae'n anochel y bydd nifer y cyfleoedd i barhau i ddatblygu gwaith y Cynulliad sy'n ymwneud â'r UE yn cynyddu.

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yng nghyfreithiau'r DU y dylai'r Comisiwn adolygu'r adnoddau sydd ar gael i bwyllgorau'r Cynulliad yn gyson i'w helpu i ystyried a blaenoriaethu gwaith ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i ymateb yn gadarnhaol i bob cyfle. Bydd y Comisiwn yn parhau i sicrhau bod y capasiti angenrheidiol ar gael o ran y gyfraith, gwaith ymchwil a gweithdrefnau i gynorthwyo'r Cynulliad i ymdrin â llwyth gwaith deddfwriaethol sy'n tyfu: wrth graffu ar Filiau'r Llywodraeth; wrth gynorthwyo Aelodau a phwyllgorau unigol sy'n ceisio datblygu neu hyrwyddo'u cynigion deddfwriaethol eu hunain; ac wrth fynd ar drywydd y cyfleoedd a ddarperir o dan Gytuniad Lisbon mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â sybsidiaredd.

**Gwella gwaith craffu**

Mae gwaith craffu Aelodau'r Cynulliad yn un o'r prif ddulliau o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol i bobl Cymru am ei pholisïau a'r broses o'u rhoi ar waith, ac wrth ystyried a yw gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

Mae'r Llywydd wedi newid y ffordd y mae Cyfarfod Llawn y Cynulliad yn gweithredu yn hyn o beth. Er enghraifft, bellach caiff amser penodedig ei neilltuo bob wythnos i arweinwyr y pleidiau holi'r Prif Weinidog, ac mae gan Aelodau Cynulliad unigol gyfleoedd yn aml i fynd i'r afael â'r materion sydd fwyaf pwysig iddynt hwy a'u hetholwyr drwy gyflwyno'r pynciau a fydd yn destun dadl.

Mae defnyddio mwy o gynghorwyr arbenigol mewn pwyllgorau wedi cynnig safbwynt allanol iddynt ynghylch eu gwaith, ac mae wedi eu galluogi i gael gafael ar wybodaeth arbenigol a phenodol iawn am bynciau arbennig. Byddwn yn parhau i greu adnodd ar ffurf cynghorwyr arbenigol sy'n galluogi'r pwyllgorau i fanteisio ar ystod eang o sgiliau arbenigol.

Mae ansawdd ac ystod y dystiolaeth a gaiff ei thrafod gan bwyllgorau yn hollbwysig o ran sicrhau y gallant wneud argymhellion gwybodus ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth. Rydym yn datblygu ffyrdd mwy arloesol o ymgysylltu â gwaith y pwyllgorau drwy gyfrwng staff cyfathrebu'r Comisiwn, i sicrhau bod yr Aelodau a'r cyhoedd yn cael budd o'r amrywiaeth o arbenigedd mewnol yr ydym yn ei ddarparu.

Mae adnoddau ychwanegol wedi'u neilltuo i gryfhau gwasanaethau a gynigir yng nghyswllt dadansoddi ariannol a gwaith craffu.  Dyma'r prif nodau:

- Cefnogi ac annog gwaith mwy effeithiol gan bwyllgorau'r Cynulliad o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau'r Llywodraeth o safbwynt ariannol;
- Cynnal cyfarfodydd briffio ar y prif feysydd sydd o ddiddordeb cyfredol a datblygu'r gallu i gyfrifo costau cynigion amgen ynghylch gwariant;
- Darparu mwy o adnoddau at ddibenion cyfrifo costau Biliau a gaiff eu harwain gan y Cynulliad,  er mwyn sicrhau y defnyddir methodoleg fwy cadarn;

– Gwella gwasanaeth ymholiadau'r gwasanaeth ymchwil o ran ei gwmpas a thrylwyredd y dadansoddiadau; a
– Darparu papurau briffio sy'n dadansoddi prif feysydd gwariant y Llywodraeth, a mwy o wybodaeth a dadansoddiadau am faterion economaidd a'r farchnad lafur.

**Llywodraethu cadarn a lle gwych i weithio**

Rhaid i'r Comisiwn ganfod cydbwysedd rhwng ei adnoddau ariannol a'r ffaith y disgwylir mwy a mwy gan y Cynulliad a'i Aelodau. Mae ymdeimlad cryf ar draws gwasanaethau'r Cynulliad eu bod yn gyfrifol am gyllid cyhoeddus a bod angen gwario arian y cyhoedd yn ddoeth. Bydd y Comisiwn yn parhau i fynd ar drywydd arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian, ond ni fydd yn tanseilio ansawdd y gwasanaethau hanfodol y mae'n gwbl deg i'r Cynulliad eu darparu i bobl Cymru.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd angen ailbennu'r cytundebau yng nghyswllt ein systemau rheolaeth gorfforaethol ym meysydd cyllid a chyfrifyddu, Adnoddau Dynol a'r gyflogres, a byddwn yn defnyddio'r cyfle buddsoddi hwn i ailgynllunio prosesau, cyfuno systemau lle y bo'n fuddiol gwneud hynny, ac i sicrhau gwell gwerth am arian.

Rydym wedi cryfhau'r broses lywodraethu ym maes caffael, a bellach hoffem wneud rhagor i hyrwyddo egwyddorion caffael cynaliadwy – mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, lleihau'r effaith amgylcheddol, a defnyddio cytundebau fframwaith yn fwy aml, pan fydd yn briodol gwneud hynny.

A ninnau'n Fuddsoddwr Safon Aur Mewn Pobl, ac oherwydd inni gael ein rhoi yn yr 20fed safle ar restr Stonewall o'r 100 cyflogwr gorau yn y DU i staff sy'n lesbiaidd, hoyw neu'n ddeurywiol, rydym yn falch o gael gweithlu sy'n angerddol ynghylch gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae ein cynigion cyllidebol yn sicrhau y gallwn gamu ymhellach – wrth hyrwyddo datblygu proffesiynol i'r Aelodau a'r staff; wrth ddefnyddio secondiadau a threfniadau cysgodi i rannu arferion da ag eraill; ac wrth ddarparu prentisiaethau a lleoliadau seneddol i fyfyrwyr israddedig sy'n dymuno cael cyfle o'r fath.

Mae gennym nifer o lwyddiannau ym maes hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae ein Cynllun Cydraddoldeb newydd wedi creu Cronfa Fynediad, a gaiff ei rheoli'n ganolog, i roi cymorth ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad i ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol.

Cafodd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) ei gyflwyno i'r Cynulliad gan y Comisiwn ar 30 Ionawr 2012, a chwblhaodd y Cynulliad ei ystyriaeth o'r Bil ar 3 Hydref 2012. Bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi sail statudol gadarn a chlir i ddyletswyddau'r Cynulliad a'r Comisiwn mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog.


Bydd Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn yn amlinellu'r gwasanaethau a fydd yn sail i'r Bil, a bydd y Comisiwn yn ei ystyried ar ôl i'r Cynulliad ystyried y Bil.

Caiff y gwaith o gyflawni ein rhaglen Gwerth am Arian ei gefnogi gan KPMG, a hynny er mwyn parhau i fwrw ymlaen â'n tri nod, sef:

– Symleiddio prosesau i sicrhau bod gwasanaethau'r Cynulliad mor effeithiol â phosibl ac i wella'r modd yr ydym yn defnyddio adnoddau;
– Manteisio i'r eithaf ar gaffael a'r broses o reoli cytundebau'n gadarn, a sicrhau eu bod yn creu cymaint o arbedion â phosibl o ran cost; a
– Gwella gwybodaeth reoli er mwyn deall yn well weithrediadau gwasanaethau'r Cynulliad, eu costau, a'r hyn sy'n sail i'r costau hynny.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth sy'n nodi ym mha feysydd y caiff costau eu lleihau o ganlyniad i'r rhaglen Gwerth am Arian yn Atodiad 1.

**Gwasanaethau Seneddol o'r Radd Flaenaf - cost 2013-14: £14.9 miliwn.**




**Mae gennym nifer o lwyddiannau ym maes hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae ein Cynllun Cydraddoldeb newydd wedi creu Cronfa Fynediad, a gaiff ei rheoli'n ganolog, i roi cymorth ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad i ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol.**

## 05. Buddsoddiadau Strategol mewn TGCh

**Mwy na**

**2,250,000**

**Tudalennau o wefan y Cynulliad yr edrychwyd arnynt yn y 12 mis diwethaf**

**Mwy na**

**275,000**

**Ymwelwyr i wefan y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf.**

**Mwy na**

**10,000**

**Dilynwyr ar Twitter**

Mae'r Cynulliad yn adnabyddus am ei arloesedd o ran defnyddio technoleg i gefnogi gwaith seneddol. Mae ein seilwaith TGCh a chlyweledol yn galluogi dinasyddion Cymru i ymgysylltu a rhyngweithio â'r Cynulliad, boed drwy gyfrwng Senedd TV, gwefan gynhwysfawr y Cynulliad, neu drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r seilwaith TGCh yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau hanfodol i fwy na 700 o ddefnyddwyr, ar ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd ac mewn swyddfeydd rhanbarthol ac etholaethol ledled Cymru.  Caiff y seilwaith cymhleth hwn ei gynnal a'i gefnogi gan Atos, drwy gyfrwng cytundeb Merlin, yr ydym yn ei rannu ar hyn o bryd â Llywodraeth Cymru. Atos hefyd yw prif ddarparwr y Cynulliad ym maes newid TGCh a datblygu systemau newydd. Gall y drefn bresennol greu heriau i'r Cynulliad ac i Atos fel ei gilydd, a gall ei gwneud yn anodd i'r gwasanaeth gwrdd ag anghenion a disgwyliadau'r Aelodau a'r Comisiwn yn gyson.


Mae'r Comisiwn wedi llwyddo i sicrhau y bydd cyfle naill ai i barhau'n rhan o gytundeb TGCh Llywodraeth Cymru neu i fabwysiadu trefniadau newydd. Bydd y penderfyniad ar ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael ei wneud yn ystod 2012-13 ac, os bydd angen newid mawr, bydd angen buddsoddi er mwyn trosglwyddo'n llwyddiannus. Nid yw'n glir eto faint o newid y byddai ei angen, ond mae'r gyllideb yn cynnwys amcangyfrif rhesymol.

Byddwn yn mynd ati i wella ein sianeli ar y rhyngrwyd, fel ein proffilau ar Twitter a Facebook, a'n platfformau fideo a delweddau, sef Flickr, Vimeo a YouTube. Mae'r dulliau hyn yn ategu dulliau mwy traddodiadol o ymgysylltu â'r cyhoedd, ac maent yn gwella ein gallu i roi gwybodaeth i gynulleidfa ehangach a gwahanol wrth inni gyflawni ein gwaith. Maent hefyd yn ein galluogi i roi ymatebion a gyflwynwyd fel rhan o ymgynghoriadau i bwyllgorau mewn fformatiau gwahanol, ee deunydd fideo o grwpiau ffocws, sy'n cael eu hystyried yn aml gan y rhai yr ydym yn ymgysylltu â hwy yn haws eu defnyddio ac yn fwy effeithlon.

Bu'r Senedd yn gweithredu ers chwe blynedd bellach, ac mae llawer o'r seilwaith TGCh gwreiddiol yn cyrraedd, neu wedi cyrraedd, y pwynt pan fo angen ei adnewyddu er mwyn sicrhau y gall y Cynulliad barhau i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.  Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo fesul cam i ddiweddaru'r Siambr, yr ystafelloedd pwyllgora a'r ardaloedd cyhoeddus o dan raglen adnewyddu y Senedd.

Yn olaf, rydym yn datblygu strategaeth a fydd yn diffinio'r modd yr ydym yn defnyddio TGCh dros y pum mlynedd nesaf, a thu hwnt. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau y bydd buddsoddiadau yn y dyfodol ym maes TGCh yn parhau i gyd-fynd ag anghenion busnes y Cynulliad a'i anghenion o ran ymgysylltu, er mwyn sicrhau y caiff y buddsoddiadau hyn eu targedu'n ddoeth a'u bod yn creu budd.

**Cost TGCh yn 2013-14: £6.7 miliwn**




**Bydd rhagor o fuddsoddi yn nhechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r Senedd yn hanfodol dros y tair blynedd nesaf i sicrhau bod ein seilwaith technolegol yn gallu cefnogi ein hanghenion busnes yn well.**

## 06. Man Cyfarfod i Gymru

**1.2 miliwn**

**Ymwelwyr a groesawyd i'r Senedd a'r Pierhead**

**670**

**Digwyddiadau a gynhelir bob blwyddyn**

Mae'r Cynulliad yn fan cyfarfod a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol, a bu'r Senedd a'r Pierhead yn gyrchfan i 1.2 miliwn o ymwelwyr hyd yma; ni yw cartref gwleidyddiaeth genedlaethol yng Nghymru. Gan fod y Cynulliad yn fan lle y gellir ymgysylltu â democratiaeth Cymru, rhaid iddo fod yn hygyrch i bawb ac estyn croeso iddynt; rhaid iddo fod yn lle diogel i ymweld ag ef, a rhaid iddo gynnig profiad rhagorol.

Caiff ystâd y Cynulliad ei defnyddio drwy gydol y flwyddyn i gynnal digwyddiadau cyhoeddus a phreifat, sy'n amrywio o gyfarfodydd, lansiadau a chynadleddau i arddangosfeydd, gan gynnig llwyfan i bobl dawnus Cymru. Rydym yn darparu mannau cyfarfod i ddathliadau ar raddfa fawr, gan gynnwys dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac yn cynnal rhai ohonynt ein hunain.  Ymysg yr ymwelwyr yr ydym yn eu croesawu mae Ei Mawrhydi y Frenhines, a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU.  Nid yw'r rhai sy'n ymweld â ni yn dod o wahanol rannau o Gymru yn unig; dônt o bedwar ban byd.  Mae pob un o'n hymwelwyr yn arbennig – ac rydym wedi croesawu, er enghraifft, Côr Plant *Destiny Africa* o Kampala yn Uganda; Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd; Ei Fawrhydi y Brenin Letsie III o Lesotho; Arlywydd Estonia; a Llysgenhadon ac Uchel Gomisiynwyr o bob ran o'r byd. Caiff dros 30,000 o ymwelwyr eu croesawu i'n hystâd drwy dderbynfa Tŷ Hywel bob blwyddyn. Mae dros hanner yr ymwelwyr hyn yn blant neu'n bobl ifanc, a byddant yn aml mewn grwpiau mawr ac yn cymryd rhan yn ein rhaglen addysg yn Siambr Hywel.

Byddwn yn defnyddio ein caffi a'n siop newydd i'r cyhoedd yn y Senedd i arddangos ac i werthu cynnyrch o Gymru mewn ffyrdd sydd â chyswllt â'r Cynulliad ac sy'n ategu ei waith. Bu angen buddsoddi rhywfaint o gyfalaf er mwyn cyfuno'r caffi a'r siop. Gwelwyd cynnydd mawr eisoes yn yr incwm a geir o werthiant, ac mae wedi ein galluogi i arbed costau staffio.

Bu'r Pierhead yn helpu Cymru i ffurfio ei hunaniaeth yn hwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; erbyn hyn, ei nod yw rhoi gwybodaeth i genhedlaeth newydd, eu cynnwys, a'u hysgogi i greu Cymru'r dyfodol.  Drwy gyfrwng ein cytundeb â Chanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, mae'r Pierhead yn dod yn ganolbwynt i rwydwaith polisi cyhoeddus Cymru gyfan sy'n dod â phum prifysgol Grŵp Dydd Gŵyl Dewi ynghyd, sef y prifysgolion a ganlyn yng Nghymru lle y gwneir gwaith ymchwil dwys: Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth, Bangor a Morgannwg. Bydd hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad fanteisio i'r eithaf ar arbenigedd a gwybodaeth academaidd yng Nghymru i lywio'r drafodaeth ddemocrataidd ar faterion polisi cyhoeddus.


Bydd Canolfan Llywodraethiant Cymru yn darparu cefnogaeth well i raglenni ac ymchwiliadau penodol pwyllgorau'r Cynulliad, gan archwilio sut y gall polisi ac arferion y Cynulliad helpu i gryfhau cymdeithas sifil, a thrwy werthuso trefniadau'r Cynulliad ynghylch ystyried materion Ewropeaidd.

Rydym yn un o'r ychydig seneddau yn y byd sydd â dyletswydd i weithio'n gynaliadwy. Er 2009, bu'r Cynulliad yn gweithio tuag at y nod o ddod yn sefydliad carbon isel erbyn 2015. Ein gweledigaeth yw lleihau allyriadau ynni 40 y cant, a lleihau allyriadau a gaiff eu creu drwy deithio ar fusnes 15 y cant.

O ganlyniad i fuddsoddi parhaus yn seilwaith ein hadeiladau ac yn ein systemau rheoli, ynghyd â'r diwylliant sy’n bodoli ar draws y Cynulliad o fod yn ystyriol o'r amgylchedd, rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol yn erbyn ein targedau ym maes cynaliadwyedd.

– Rydym wedi lleihau allyriadau ynni 24% dros y pedair blynedd diwethaf,
– Rydym yn ailgylchu 95% o'n gwastraff, ac
– Rydym ar y trywydd iawn o hyd i gyrraedd ein targed ynghylch allyriadau teithio ar fusnes.

**Man Cyfarfod i Gymru - cost yn 2013-14: £11.6 miliwn**




**Rhaid inni barhau i gynnal ansawdd uchel ein hadeiladau er mwyn rhoi profiad gwych i'n hymwelwyr, a rhaid inni sicrhau bod staff yno i'w croesawu. Rydym yn ystyried hon yn flaenoriaeth allweddol.**

## 07. Y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

**Cyllideb 2013-14**

**£13.7 miliwn**

Cyfrifoldeb Bwrdd Taliadau y Cynulliad Cenedlaethol yw penderfyniadau ynghylch cyflog a chostau Aelodau'r Cynulliad; sefydlwyd y Bwrdd gan ddeddfwriaeth y Cynulliad yn 2010. Mae'r Bwrdd yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad, ac felly nid oes gan Aelodau'r Cynulliad rôl uniongyrchol o ran pennu eu cyflogau eu hunain, cyflogau eu staff na'r symiau y gellir eu had-dalu am gostau swyddi a chostau eraill. Caiff penderfyniadau'r Bwrdd eu cyhoeddi ym Mhenderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a, thrwy statud, cyfrifoldeb y Comisiwn yw sicrhau bod y cyllid angenrheidiol ar gael i dalu'r costau sy'n deillio o'r Penderfyniad.

Y llynedd, penderfynodd y Bwrdd bennu cyflog sylfaenol o £53,852 i Aelodau'r Cynulliad, ac fe'i rhewodd ar y lefel honno, ynghyd â lwfansau deiliaid swyddi, tan o leiaf 2015. Yn sgîl hyn, mae'r costau a ragwelwyd ar gyfer y cyfnod pedair blynedd rhwng 2011 a 2015 wedi'u lleihau fel a ganlyn:

– rhewi cyflogau,£1.5 miliwn.
– rhewi lwfansau deiliaid swyddi, £0.4 miliwn;
– costau swyddfa a chostau eraill, £0.2 miliwn.

Erbyn 2013-14, bydd y Bwrdd Taliadau wedi cwblhau ei arolwg o rwydwaith staffio Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys cyflogau staff cymorth, a all effeithio ar Gyllideb y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.


Fel y nodwyd yn y Penderfyniad, mae gan Aelodau'r Cynulliad fynediad at gostau swyddfa a chostau eraill, i dalu am:

– redeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
– cyflogau a chostau teithio eu staff cymorth eu hunain;
– llety preswyl yng Nghaerdydd, lle y bo angen, i'r rhai sy'n gymwys;
– costiau teithio yr oedd yn angenrheidiol eu talu i gyflawni dyletswyddau; a
– chefnogaeth i Grwpiau'r Pleidiau.

Yn y graff ar y dudalen nesaf, dangosir canran pob cost.

Hefyd, mae cyllideb ar wahân sy'n darparu ar gyfer newidiadau cyfrifyddol yng nghyswllt cynllun pensiynau'r Aelodau. Caiff y tâl hwn ei adlewyrchu yn y gyllideb AME (Gwariant a reolir yn flynyddol), a ni ddisgwylir iddo newid o'r £0.5 miliwn yn 2012-13.

**Cyllideb 2013-14 y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad: £13.7 miliwn**




---

**Amcangyfrif o'r gostyniad mewn costau rhwng 2011 a 2015**

# £2.1 miliwn

---

## 08. Cwmpas y Gyllideb

**01.** Caiff y cyflwyniad hwn ar y gyllideb ei osod yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 20 y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cynorthwyo'r gwaith o lunio'r cynnig Cyllideb Blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn cynnwys gofynion y Comisiwn o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014, a symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

**02.** Nododd Comisiwn y Cynulliad ei anghenion o ran gwariant yn ei Gyllideb ar gyfer 2012-13, sy'n cwmpasu'r cyfnod tan 2015. Mae cyllideb eleni (£49.5 miliwn) a'r ffigur dros dro ar gyfer 2014-15 (£50.6 miliwn) yn adlewyrchu'r lefelau cyllid hyn, y craffwyd ac y cytunwyd arnynt eisoes. Mae'r Comisiwn yn datblygu'r cynlluniau ar gyfer cyfnod nesaf ei anghenion gwariant er mwyn eu cynnwys yng Nghyllideb 2014-15. Bydd hyn yn ymdrin â'r cyfnod tan 2017 ac yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch lefelau'r cyllidebau ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

**03.** Bydd y Cynnig Cyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net sydd i'w defnyddio yng nghyswllt gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio yng nghyswllt y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn hytrach na chael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r swm o arian y bydd angen ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net y rhagwelir y bydd angen i'r Comisiwn eu talu.

**04.** Caiff Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14, i ddiwallu'r gofynion hyn, eu nodi yn Nhabl 1 isod.

| **Tabl 1:** | **£000** |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad); hyrwyddo'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn cysylltiad â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; ac unrhyw daliadau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | 35,750 |
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. | 13,700 |
| *Cyfanswm yr adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus* | *49,450* |
| Gwariant a reolir yn flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â darpariaeth bensiwn Aelodau'r Cynulliad | 500 |

| | |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddaw o:<br>werthu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio ar brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>incwm rhent; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl ac incwm o werthu nwyddau masnachol neu wasanaethau eraill a gaiff eu darparu i'r cyhoedd neu i eraill am gostau gweinyddol y Cynulliad. | 250 |
| Swm i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r costau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a'r dibenion uchod, ar ôl tynnu derbynebion y gellir eu cadw a'r TAW adferadwy. | 45,850 |

**05.** Mae Tabl 2 isod yn cysoni'r gofynion adnoddau net â swm yr arian y mae angen ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Tabl 2 GOFYNION ARIANNOL** **£000 oedd**

| | **2013-14**[1] | **2014-15 Dros dro**[1] | **2015-16 Dros dro**[2] |
|---|---|---|---|
| Gofynion Refeniw Net yr Aelodau | 13,700 | 13,900 | 14,300 |
| Gofynion Refeniw Net y Comisiwn[3] | 35,000 | 35,698 | 35,798 |
| Gofynion Cyfalaf Net | 750 | 1,000 | 500 |
| Darpariaeth bensiwn Aelodau'r Cynulliad (AME) | 500 | 500 | 500 |
| *Addasiadau:* | | | |
| Dibrisiant | (4,000) | (4,400) | (4,500) |
| Symudiadau mewn darpariaethau | (500) | (500) | (500) |
| Symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr | 300 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 100 | 0 | 0 |
| **Gofynion arian net i'w tynnu o Gronfa Gyfunol Cymru** | 45,850 | 46,198 | 46,098 |

[1] Fel y nodwyd yn nogfen Cyllideb 2012-13.
[2] Cyllideb dros dro sydd wedi'i seilio ar arian parod sefydlog; cynnydd o 0% ar 2014-15.
[3] Cymerir y bydd incwm cronnus o £0.250 miliwn bob blwyddyn.

# Atodiad 1 Gwybodaeth Ariannol

**Tabl 3: Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Gyllideb** **£000 oedd**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Cynulliad | 32,847 | 31,673 | 33,477 | 35,750 | 36,698 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 13,380 | 13,034 | 13,500 | 13,700 | 13,900 |
| **Cyfanswm y gyllideb (Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)) sydd ei hangen*** | **46,227** | **44,707** [4] | **46,977** | **49,450** | **50,598** |
| Newid o'r flwyddyn flaenorol | | (3.3%) | 5.1% | 5.3% | 2.3% |
| *Newid termau real o waelodlin 2010-11* | | *(6.0%)* [5] | *(3.3%)* [6] | *(0.7%)* [6] | *(0.9%)* [6] |

* Mae angen addasiad cyfrifyddu o £0.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Ers 2010-11, caiff hyn ei ariannu ar wahân drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

**Tabl 4: Cost Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

| | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £miliwn | £miliwn |
| Staff y Comisiwn | 15.4 | 16.3 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad | 13.5 | 13.7 |
| Costau sefydlog, gan gynnwys costau dibrisiant | 12.2 | 12.6 |
| Costau newidiol | 4.2 | 4.6 |
| Y Rhaglen Fuddsoddi | 1.7 | 2.3 |
| | 47.0 | 49.5 |

[4] Nid yw'n cynnwys cyllid etholiadol 2011.
[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **GEN-LD8718,** Cynigion Comisiwn y Cynulliad ynghylch Cyllideb 2012-13, 9 Tachwedd 2011 [fel ar 24 Hydref 2012], tudalen 6.
[6] Defnyddir tybiaethau Trysorlys E M 2012-13 2.7% , 2013-14 2.5% a 2014-15 2.5%, fel ar 27 Medi 2012.

# Atodiad 1: parhad

(gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid yng nghyswllt Cyllideb y Comisiwn7)

| Tabl 5 Buddsoddi - prosiectau a datblygiadau yn 2013-14 | £000 oedd Uchafswm |
|---|---|
| Gwasanaeth Seneddol o'r Radd Flaenaf | 900 |
| System rheolaeth gorfforaethol newydd (Adnoddau Dynol, y Gyflogres, Cyllid) | |
| Atebion dwyieithog a chofnod clyweledol | |
| | |
| Buddsoddi strategol yn ein gwasanaethau TGCh | 2,600 |
| Gwasanaeth TGCh y dyfodol | |
| Adfywio'r Senedd | |
| Cronfa Ddigidol | |
| Wi-Fi ledled yr ystâd ym Mae Caerdydd | |
| | |
| Buddsoddi mewn cynaliadwyedd ac yn ein hadeiladau ar yr ystâd | 200 |
| Prosiectau cynaliadwyedd | |
| Y defnydd a wneir o ofod | |

| Tabl 6 Y Rhaglen Gwerth am Arian - rhestr o'r arbedion a gyflawnwyd | £000 oedd | £000 oedd |
|---|---|---|
| **Arbedion anghylchol** | | |
| Arbedion a gyflawnwyd yn 2011-12 o ran staff | (647) | |
| Arbedion gweithredol a gyflawnwyd yn 2011-12 | (387) | |
| Arbedion a gyflawnwyd yn 2012-13 o ran staff (30 Medi) | (252) | |
| Arbedion gweithredol a gyflawnwyd yn 2012-13 (30 Medi) | (70) | |
| | | |
| **Arbedion cylchol o 2012-13 sy'n lleihau costau 2013-14** | | |
| Newidiadau i ddulliau o ddarparu gwasanaethau: | | |
| TGCh, y Wefan a Darlledu | (195) | |
| Arlwyo | (27) | |
| Cyngor arbenigol – amgylcheddol | (20) | |
| Cynllun ymadael gwirfoddol i staff: 2011-12 | (367) | |
| | | |
| Newidiadau sy'n codi ar ôl cyd-drafod cytundebau | | |
| Rhentu ffotogopiwyr | (20) | |
| Cynnal a chadw a glanhau | (35) | |
| Rheoli'r gyflogres | (5) | |
| | | |
| Newidiadau sy'n codi oherwydd gostyngiad mewn anghenion | | |
| Marchnata a chyhoeddusrwydd | (75) | |
| Cyfleustodau | (24) | |
| Costau postio a chludo | (5) | |
| | | |
| Y gost a symudwyd i'r Gronfa Gyfunol (Y Comisiynydd Safonau) | (26) | (799) |

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, **CR-LD9070: Adroddiad y Pwyllgor ar ei Waith Craffu yng nghyswllt Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14,** 18 Hydref 2012, [fel ar 24 Hydref 2012]

## Atodiad 2 Rhestr termau

**Asedau Sefydlog**
Eitemau a gaiff eu prynu y disgwylir i'w defnyddio am gyfnod hwy na blwyddyn er budd economaidd y busnes, fel tir, adeiladau ac offer.

**Bloc Cymru**
Hwn yw'r grant bloc a gaiff ei gyfrifo drwy ddefnyddio Fformiwla Barnett ac y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno i'w roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer y cyllid a ddaw i Gymru.

**Costau newidiol**
Treuliau sy'n newid yn unol â gweithrediadau'r sefydliad.

**Credydwr**
Sefydliad neu rywun y mae rhwymedigaeth arnoch i dalu iddynt am nwyddau neu wasanaethau a gawsoch.

**Cronfa Gyfunol Cymru**
Cafodd ei chreu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; mae'n gyfrif banc niwtral a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Caiff yr arian y pleidleisiodd Senedd y DU arno i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei dalu i'r cyfrif hwn.

**Cyfalaf**
Gwariant a ddefnyddir fel arfer i brynu ased sefydlog (ee adeilad, offer neu dir) ac y bwriedir iddo fod o fudd i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu gallu, effeithlonrwydd neu hyd bywyd ased sefydlog a brynwyd eisoes.

**Cyllideb Ddrafft**
Mae'n nodi'r adnoddau a'r symiau ariannol a gaiff eu cynnig i'w defnyddio yn y flwyddyn ariannol nesaf, a ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddilynol.

**Darpariaeth**
Rhwymedigaeth nad yw ei amseriad na'i gyfanswm yn sicr. Caiff cost ei gydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd gennym rwymedigaeth gyfredol (boed yn ddeddfwriaethol neu'n ymarferol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i gyflawni'r rhwymedigaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ynghylch cyfanswm y rhwymedigaeth.

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**
Deddf Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac sy'n ei gwneud yn haws rhoi rhagor o bwerau iddo. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu, sydd â gweithrediaeth ar wahân sy'n cynnwys aelodau'r ddeddfwrfa ac sy'n atebol iddi.

**Dibrisiant**
Dull o fesur y defnydd a wneir o ased sefydlog, dirywiad yn ei gyflwr, neu leihad yn y cyfnod y gellir ei ddefnyddio.

**Dyledwr**
Sefydliad neu rywun y mae rhwymedigaeth arnynt i'ch talu chi am nwyddau neu wasanaeth yr ydych chi wedi'u darparu iddynt.

**Fformiwla Barnett**
Fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu, i weinyddiaethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, gyfran sy'n seiliedig ar y boblogaeth o'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio i wariant adrannau Llywodraeth y DU ar wasanaethau cymaradwy.

**Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)**
Dosbarth gwariant a gedwir ar gyfer eitemau y mae'n anos eu rhagweld a'u rheoli. Dim ond i gyflawni'r diben a bennwyd iddo y gellir ei ddyrannu.

**Gwerth am Arian**
Y broses sy'n llywio'r modd y caiff systemau caffael, prosiectau a phrosesau eu gwerthuso a'u hasesu'n systematig i roi sicrwydd ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, gofalusrwydd, ansawdd, gwerth a'r modd y caiff camgymeriadau a gwastraff o fathau eraill eu hosgoi, a gaiff ei farnu ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd

**Refeniw/Costau Cynnal**
Gwariant cyfredol a ddefnyddir i dalu costau cynnal o ddydd i dydd, fel cyflogau staff a chostau prynu nwyddau a gwasanaethau treuliadwy.

**Termau real**
Gwerth gwariant ar ôl ei addasu i adlewyrchu chwyddiant prisiau cyffredinol. Mae'n galluogi cymharu ar draws blynyddoedd heb i newidiadau mewn prisiau ddylanwadu ar y ffigurau.